

Tasg 1

Mynd i'r sŵ

Atebwch y cwestiynau yma:

1a. Ble mae Chris a Ceri, yn eich barn chi?

1b. Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Pam dydy Ceri ddim eisiau mynd i'r sŵ? Meddyliwch am ddau reswm.

a.	<input type="text"/>
----	----------------------

b.	<input type="text"/>
----	----------------------

3. Pa anifeiliaid sy yn y sŵ?

4. Beth mae Jo yn feddwl o sŵs?

5. Ydych chi'n cytuno gyda Jo neu Ceri?

Rhowch resymau dros eich ateb.

6. Beth ydy'ch barn chi am sŵs?

Maen nhw'n wych
achos ...

NEU

Maen nhw'n ofnadwy
achos ...

a. Meddyliwch am atebion da i'r cwestiwn a gwnewch nodiadau.

Os ydych chi eisiau help, edrychwch eto ar **Ciwb**, Rhifyn 15, "Anifeiliaid Anwes gwahanol", Tasg 3.

Mae help ar y dudalen nesaf.

b. Trafodwch y cwestiwn mewn grŵp a gwnewch nodiadau pan fyddwch chi'n siarad.

c. Cymharwch syniadau'ch grŵp chi â syniadau grwpiau eraill.

7. Ysgrifennwch erthygl am: **Sŵs – da neu ddrwg?**

Rhaid:

- dangos y pwyntiau da
- dangos y pwyntiau drwg
- mynegi barn gan roi digon o resymau.

Mynegi barn

Meddwl ...	
Beth wyt ti'n feddwl o ...? Beth wyt ti'n feddwl o gadw ... mewn sŵ?	What do you (sing.) think of ...? What do you (sing.) think of keeping ... in a zoo?
Beth ydych chi'n feddwl o ...? Beth ydych chi'n feddwl o gadw ... mewn sŵ?	What do you (pl.) think of ...? What do you (pl.) think of keeping ... in a zoo?
Dw i'n meddwl bod hyn yn ... Dw i ddim yn meddwl bod hyn yn ...	I think that this is ... I don't think that this is ...
Dw i'n meddwl ei fod e'n / o'n ...	I think that it's ...
Mae'n ...	
Mae'n ... Mae'n ... heb os nac oni bai. Yn fy marn i, mae'n ... Mae'n ... yn fy marn i.	It's ... It's ... without [a shadow of] a doubt. In my opinion, it's ... It's ... in my opinion.
Cytuno /Anghytuno	
Dw i'n cytuno achos ... Yn hollol! Mae hwnna'n bwynt da. Yn union! Dw i ddim yn siŵr am hynny achos ... Dw i ddim yn cytuno achos ... Dw i'n anghytuno achos ... Dw i'n anghytuno'n llwyr achos ...	I agree because ... Absolutely! That's a good point! Exactly! I'm not sure about that because ... I don't agree because ... I disagree because ... I completely disagree because ...
Hefyd:	
Mae'n gas gen i ... (Gogledd Cymru) Mae'n gas gyda fi ... (De Cymru) Mae'n well gen i ... na ... (Gogledd Cymru) Mae'n well gyda fi ... na ... (De Cymru)	I hate ... I hate ... I prefer ... to ... I prefer ... to ...